

Justin Horrell – Rheolwr Prosiect Digidol

Justin yw Rheolwr Prosiect Digidol gydag Un Llais Cymru ers dechrau yn ei rôl ar 25 Gorffennaf 2023. Mae'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer lechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref sy'n cael ei noddi gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol .

Cyn dechrau yn y swydd hon, cafodd Justin dros 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth. Mae hyn wedi cynnwys rolau mewn peirianeg a pensaernïaeth TG a rheoli prosiectau yn ogystal ag uwch arweinyddiaeth. Mae wedi gweithio gyda chleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a masnachol ar draws Ewrop yn ogystal ag arwain timau a rhaglenni ar draws y byd.

Mae gan Justin BSc (Anrh) mewn Mathemateg o Brifysgol Manceinion. Yn ogystal â'i waith gydag Un Llais Cymru, mae Justin yn actifydd cymunedol ymroddedig. Mae'n cynrychioli ward Abercraf ar Gyngor Tref Ystradgynlais, yn Ysgrifennydd Sefydliad Lles Glowyr Aber-craf a'r Cylch ac yn Llywodraethwr Cymunedol yn Ysgol y Cribarth yn Abercraf.

Yn dilyn magwraeth ar Benrhyn Gŵyr, mae Justin wedi byw am yr 20 mlynedd diwethaf yng Nghwm Tawe Uchaf ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Pan fydd ganddo unrhyw amser rhydd mae'n mwynhau llenyddiaeth Gymraeg, rygbi a gweithgareddau awyr agored fel cerdded a seiclo.